

Cwestiynau Academic

Pam mae'ch pwnc chi yn haeddu ei ymchwilio?

Cymerais diddordeb yn y pwnc hyn sef beth mae ysgolion a'r Llywodraeth Cymru yn wneud sydd yn addas ar gyfer plant a phobl ifanc os oes ganddynt iechyd meddwl. Rydw i wedi cymeryd diddordeb yn y pwnc hyn gan fy mod yn meddwl bod gan lawer o blant a phobl ifanc iechyd meddwl, gall hyn fod ar ffurf bryder neu iselder, ac mae cymaint o resymau pam mae plant a phobl ifanc ag iechyd meddwl, ond Rydw I am canolbwyntio a'r plant a pobl ifanc Yng Nghymru. Mae mwy o diddordeb mewn iechyd meddwl y dyddiau hyn mae'n aml yn hysbysu am iechyd meddwl ar y teledu, I annog bobl i siarad mwy, felly gall hyn helpu achub bywyd rhywun, mae gwybod bod rhywun ar gael iddynt siarad a nhw, yn gallu golygu popeth iddynt. Y sail resymegol ar gyfer fy nghwestiwn arbennig yw fy mod yn credu y gall plant a phobl ifanc gael yr help cywir, gyda'r cymorth cywir, ac felly gallant ddatblygu i fod yn oedolion iach a hapus. Yn ol I Children commissioner for Wales. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno bod angen aifeddwl yn ddifrifol am ein gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru (a gweddill Prydain). Ni all ein gwasanaethau iechyd meddwl clinigol ymdopi â'r galw sydd arnynt a mae gormod o blant sydd angen eu gwasanaethau yn gorfod aros yn rhy hir am apwyntiadau. Yr hyn y mae arnom ei angen yw dull sydd wedi gynllunio'n dda, nid cyfrifoldeb y gwasanaeth iechyd yn unig ydyw, ond hefyd addysg, gwasanaethau ieuencid, gwasanaethau cymdeithasol a Chymdeithas yn gyffredinol gan gynnwys rhieni.

Crynowch eich darganfyddiadau?

Rydw I wedi rhoi pwyntiau gwahanol yn fy traethawd am wahanol fathau o iechyd meddwl sydd gan blant a phobl ifanc, a'r hyn all eu hachosi. Rydw I wedi edrych ar beth mae'r Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu plant a phobl ifanc Cymru, bod arian ac adnoddau yn cael rhoi mewn lle ar eu cyfer. Rydw I wedi edrych ar beth mae'r ysgolion yn ei wneud i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc, mae clybiau fel clybiau anogaeth sy'n gallu cefnogi'r plant a'u helpu i ddysgu sut i

ymddwyn mewn gwahanol sefyllfa a gadael i bobl eraill siarad ac maen nhw'n cael cyfle i fynegi sut maen nhw'n teimlo.

Gwasanaethau iechyd meddwl y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol (GIG) yw CAMHS, mae nhw'n arbenigol sy'n canolbwyntio ar anghenion plant a phobl ifanc.

Maen nhw'n dimau amlddisgyblaethol sy'n aml yn cynnwys:

Seiciatryddion

Seicolegwyr

gweithwyr cymdeithasol

Nyrsys

gweithwyr cymorth

therapyddion galwedigaethol

Yn ol I Youngminds, Mae'n arferol i blant a phobl ifanc deimlo'n bryderus neu'n ofidus ar hyn o bryd. Rydyn ni i gyd wedi profi newidiadau sydyn yn ein bywydau a'n harferion – ac rydyn ni'n byw gyda llawer o ansicrwydd am yr wythnosau nesaf. I rai pobl ifanc, gall y pandemig firws Corona hefyd waethygu neu sbarduno pryderon yr oeddent eisoes yn cael trafferth gyda nhw. Yn ol I childrens society, Mae amrywiaeth eang o dystiolaeth i ddangos bod plant sy'n byw mewn tldi yn agored i amrywiaeth o risgiau a all gael effaith ddifrifol ar eu hiechyd meddwl, gan gynnwys dyledion, tai gwael, ac incwm isel. Ond yn anffodus nid yw rhai plant yn cael help oherwydd nid yw pobl yn gweld yr arwyddion, gallant golli'r arwyddion yn hawdd a'i roi i lawr i fod yn Moody yn eu harddegau neu ddim ond strancio

Pa buasech angen gwneud ymchwil Gynradd am eith pwnc, pa fethodoleg fuasach wedi defnyddio? Pam?

Petawn yn dewis methodoleg sylfaenol, byddai'n rhaid cyfweld ag ymarferwyr sy'n gweithio yn y sector iechyd meddwl yng Nghymru. Byddwn yn gofyn iddynt am ddata a gwybodaeth am achosion o'r hyn a gall achosi iechyd meddwl mewn plant a phobl ifanc, byddwn yn gofyn a ydy'r plant a'r bobl ifanc yn cael eu hanfon i'r gwasanaethau cywir a beth y mae'r gwasanaethau yn ei wneud i'w helpu, a beth y gallwn ei ddisgwyl ar gyfer dyfodol ein plant a'n pobl ifanc sydd ag iechyd meddwl , a fyddai atal yn well na gwella.

Pam?

Pam fydda i'n dewis y fethodoleg hon? fi yw'r ymchwilydd a hoffwn yn bersonol ddarganfod a oes digon yn cael ei wneud ar gyfer y plant a'r bobl ifanc, darganfod astudiaethau achos i weld beth yw prif achos iechyd meddwl yng Nghymru, a oes un achos yn dangos mwy nag achos anther? Gallaf ddarganfod y data diweddar a chymharu â hen ddata i weld a oes gwelliant.

Beth fuasai'ch ysyriaethau moesogol wedi bod? Pam?

Byddwn yn defnyddio dull moesegol trwy wneud yn siŵr bod yr holl enwau'n cael eu cadw'n gyfrinachol gan fod cyfrinachedd yn bwysig iawn i'r staff a'r disgyblion. Byddwn ond yn gofyn cwestiynau perthnasol sy'n ymwneud ag iechyd meddwl. Byddwn i'n gwneud yn sicr bod y cyfrinair ar gyfer y wybodaeth yn cael ei gadw ar ddata trydanol a byddai'r cyfrinair yn gyfrinachol i mi, byddaf yn sicrhau nad oes unrhyw beth yn cael ei ysgrifennu ar bapur. Bydd gennyf ganiatâd gan bawb yr wyf yn siarad ag, bydd yn rhaid gwneud hyn drwy gyfrwng ffurflen moeseg ar-lein. Bydd gennyf ganiatâd gan bawb yr wyf yn siarad ag, bydd yn rhaid gwneud hyn drwy gyfrwng ffurflen moeseg ar-lein. Nodwedd arall o waith ymchwil ansoddol yw y gellir dadansoddi'r data gan ddefnyddio dull penagored (Cohen, manion), sef (2000). Mewn dull gweithredu penagored o'r fath gellir dadansoddi'r data gyda golwg ar y cwestiynau ymchwil a'r damcaniaethau a berir gan yr ymchwilydd yn ogystal â damcaniaethau o'r hyn sy'n digwydd a all ddeillio o'r data ei hun. Mae Cohen et al. (2000) yn galw hyn yn ymagwedd theori sylfaenol lle mae'r dadansoddiad o'r data yn dod o edrych ar y data. Gall dadansoddi data theori sylfaenol gael ei wneud drwy ddull cymharol gyson. Mae dull cymharu cyson wrth ddadansoddi data yn edrych ar ddarganfod themâu allweddol a rheolaidd a all ddeillio o'r data a wedyn cymharu'r canlyniadau.

Beth yw cryfderau a gwendidau eith astudiaeth?

Y pwyntiau cryfion a gefais wrth wneud y traethawd oedd, mae iechyd meddwl yn bwnc poblogaidd ac mae iechyd meddwl mewn plant a phlant ifanc yn bwnc poblogaidd, fel y mae'n digwydd yn yr oes sydd ohoni ac mae mwy o dderbyn hynny. Mae llawer o'r adnoddau ar-lein yn dod o wefannau dibynadwy gyda chwmnïau adnabyddus, fel Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol, iechyd meddwl Cymru, maent yn fodern ac yn cynnwys y wybodaeth diweddaraf.

Mae'r pwyntiau gwan am y pwnc hwn fel pwnc mor boblogaidd ac mae llawer o ymchwil wedi cael ei roi i mewn iddo ac yn parhau i gael ei ymchwilio, mae'n dweud yr un wybodaeth llawer o'r amser. Nid yw llyfra yn fodern ac hefyd nid ydynt yn cael eu gwneud i gefnogi iechyd meddwl ar hyn o bry mewn eun bywyd nawr. Hefyd, nid oes gan lyfrau lawer o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru o ran iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn. Yn ol I stella Cottrell I fod yn fyfyrwr, yw gallu eistedd gyda'ch profiad, dadansoddi a gwerthuso eich perfformiad eich hun, a dysgu gwersi ohono. (t.87).

Cyfernod :-

lase.web.org/documents/papers

www.childcom.wales.org.uk children's commissioner for wales

www.childlrenociety.org.uk poor mental health, the links between child poverty and mental health.

www.nhs.uk child and adolescent mental health services – CAMHS

Youngminds.org.uk help the parents supporting your child during the coronavirus pandemic

The study skills handbook, fourth edition, Cottrell, Stella, 2013, Macmillan Publishers, London (t.87).